OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 1763 (Cy. 178)

# CARTREFI SYMUDOL, CYMRU

## Rheoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Gorffennaf 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *4 Gorffennaf 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Hydref 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 52(3) ac (8), 63(1), (8) a (9) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013(**1**), a pharagraffau 9(4) a (6), 10(5), (7), (8) a (10), 11(2) a (4), 12(2) a (5) a 13(5), (7) a (9) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 iddi.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014 a deuant i rym ar 1 Hydref 2014.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cytundeb" *("agreement")* yw cytundeb y mae Rhan 4 o Ddeddf 2013 yn gymwys iddo;

ystyr "datganiad ysgrifenedig" *("written statement")* yw'r datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 49(1) o Ddeddf 2013;

ystyr "Deddf 2013" *("the 2013 Act")* yw Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013;

mae i "ffi am y llain" *("pitch fee")* yr ystyr a roddir iddo yn adran 62 o Ddeddf 2013;

mae i "llain" *("pitch")* yr ystyr a roddir iddo yn adran 55(1) o Ddeddf 2013;

mae i "meddiannydd" ("*occupier*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 55 o Ddeddf 2013;

ystyr "meddiannydd arfaethedig" *("proposed occupier")* yw person y mae'r meddiannydd yn bwriadu gwerthu cartref symudol neu ei roi yn anrheg iddo ac aseinio'r cytundeb sy'n ymwneud â'r cartref symudol iddo;

(**1**) 2013 dccc 6.

ystyr "rheolau cyn cychwyn" *("pre-commencement rules")*, mewn perthynas â safle, yw rheolau a wneir gan y perchennog cyn i adran 52 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 gychwyn, sy'n ymwneud â mater a grybwyllir yn adran 52(2) o Ddeddf 2013;

mae i "rheolau safle" ("*site rules*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 52(2) o Ddeddf 2013;

ystyr "safle" *("site")* yw safle gwarchodedig fel y'i diffinnir yn adran 2(2) o Ddeddf 2013; ac

mae i "Sipsiwn a Theithwyr" *("Gypsies and Travellers")* yr ystyr a roddir iddo yn adran 62 o Ddeddf 2013.

**Gwerthu cartref symudol: darparu gwybodaeth a dogfennau i feddiannydd arfaethedig**

**3.**—(1) Dyma'r dogfennau a ragnodir at ddibenion paragraff 11(2)(a) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013—

(a) copi o'r cytundeb a'r datganiad ysgrifenedig;

(b) pan gafodd y cytundeb ei aseinio i'r meddiannydd, copi o'r offeryn sy'n rhoi effaith i'r aseiniad hwnnw;

(c) copi o unrhyw reolau cyn cychwyn ar gyfer y safle sydd mewn grym;

(d) copi o unrhyw reolau safle ar gyfer y safle sydd mewn grym;

(e) tystiolaeth ddogfennol o unrhyw daliadau sy'n ymwneud â'r cartref symudol neu'r safle sy'n daladwy i'r perchennog neu i drydydd parti ar gyfer nwy, trydan, dŵr, carthffosiaeth neu wasanaethau eraill, gan gynnwys manylion pryd y mae angen talu'r taliadau hyn a phryd y mae angen eu hadolygu nesaf;

(f) tystiolaeth ddogfennol o unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â'r cartref symudol neu'r safle sy'n daladwy i'r perchennog neu i drydydd parti, gan gynnwys taliadau ar gyfer defnyddio garej, lle parcio neu dŷ allan;

(g) copi o unrhyw warant ar gyfer y cartref symudol sy'n parhau yn ddilys ac sydd ym meddiant y meddiannydd; ac

(h) copi o unrhyw arolwg strwythurol o'r cartref symudol, sylfaen neu lain sydd wedi ei gomisiynu gan y meddiannydd a'i gynnal gan berson cymwys addas yn y 12 mis cyn y dyddiad pan gaiff y dogfennau eu darparu i'r meddiannydd arfaethedig.

(2) Pan nad yw'r meddiannydd yn gallu darparu unrhyw un neu ragor o'r dogfennau a grybwyllir ym mharagraff (1), rhaid darparu eglurhad ysgrifenedig i'r meddiannydd arfaethedig yn egluro pam.

(3) Dyma'r wybodaeth a ragnodir at ddibenion paragraff 11(2)(b) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013—

(a) y pris arfaethedig ar gyfer gwerthu'r cartref symudol;

(b) manylion y comisiwn a fyddai'n daladwy gan y meddiannydd arfaethedig yn rhinwedd paragraff 9(4) neu 10(8) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (yn ôl y digwydd);

(c) manylion y ffi am y llain sy'n daladwy i'r perchennog, gan gynnwys pryd y mae'n daladwy a'r dyddiad adolygu nesaf (mae i "dyddiad yr adolygiad" yr ystyr a roddir iddo ym mharagraff 1 o Bennod 1 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013);

(d) manylion unrhyw ôl-ddyledion ffioedd am y llain neu unrhyw daliadau eraill sy'n daladwy o dan y cytundeb sydd heb eu talu ar yr adeg pan gaiff y dogfennau a'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn eu darparu i'r meddiannydd arfaethedig, a manylion unrhyw drefniadau yr ymrwymir iddynt gyda'r perchennog ynghylch clirio unrhyw ôl-ddyledion o'r fath;

(e) band prisio'r dreth gyngor sy'n berthnasol i'r cartref symudol;

(f) enw'r perchennog a'r cyfeiriad lle gellir cyflwyno hysbysiadau i'r perchennog, ar yr amod bod yr wybodaeth hon wedi ei darparu i'r meddiannydd yn unol â pharagraff 24 o Bennod 2

o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 neu, pan nad yw'r cyfeiriad hwn wedi cael ei ddarparu, unrhyw gyfeiriad hysbys arall ar gyfer y perchennog;

(g) enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol y mae'r cartref symudol wedi ei leoli yn ei ardal;

(h) eglurhad o'r gofynion gweithdrefnol a ragnodir yn rheoliadau 9 a 10;

(i) y dyddiad pan gafodd y cytundeb ei wneud a, pan nad oedd y meddiannydd yn un o bartïon gwreiddiol y cytundeb, y dyddiad pan gafodd y cytundeb ei aseinio i'r meddiannydd;

(j) pan nad yw'r cytundeb yn gytundeb newydd, eglurhad o effaith paragraff 10(1) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (ac mae i "cytundeb newydd" yr ystyr a roddir iddo ym mharagraff 9(2) o'r Bennod honno);

(k) datganiad yn cadarnhau mai'r meddiannydd yw perchennog cyfreithiol y cartref symudol a'i fod yn gwerthu'r cartref symudol gyda meddiant gwag ac nad oes unrhyw fenthyciadau sydd heb eu talu mewn perthynas â'r cartref symudol; ac

(l) manylion unrhyw achosion cyfreithiol mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r cartref symudol, y cytundeb neu'r safle y mae'r meddiannydd yn barti iddo ac sydd wedi eu cyhoeddi neu eu cychwyn, ond nad ydynt wedi cael eu gwaredu neu eu tynnu'n ôl, ar yr adeg y caiff yr wybodaeth ei danfon neu ei hanfon at y meddiannydd arfaethedig.

(4) Rhaid i'r wybodaeth gael ei darparu yn y ffurf a ragnodir yn Atodlen 1, neu mewn ffurf sy'n cael yr un effaith yn sylweddol.

### Cytundebau presennol: Hysbysiad o'r bwriad i werthu

**4.**—(1) Yr wybodaeth a ragnodir at ddibenion paragraff 10(5) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 yw'r wybodaeth a bennir ym mharagraffau (2) i (6).

(2) Ym mhob achos mae'r wybodaeth yn cynnwys—

(a) enw'r meddiannydd arfaethedig;

(b) eglurhad o effaith is-baragraffau (1) i (4) o baragraff 10 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013; ac

(c) ar ba seiliau a ragnodir yn rheoliad 7 y caiff y perchennog wneud cais i'r tribiwnlys am orchymyn gwrthod.

(3) Mewn achosion pan fo gan y safle reolau cyn cychwyn neu reolau safle, mae'r wybodaeth hefyd yn cynnwys datganiad yn cadarnhau—

(a) bod y meddiannydd wedi darparu copi o'r rheolau hynny i'r meddiannydd arfaethedig; a

(b) bod y meddiannydd arfaethedig wedi darllen ac wedi deall y rheolau (neu fod rhywun wedi eu hegluro iddo) a bod y meddiannydd arfaethedig yn gallu cydymffurfio â hwy.

(4) Mewn achosion pan fo gan y safle reol cyn cychwyn neu reol safle sy'n ymwneud ag oedran y meddianwyr, mae'r wybodaeth hefyd yn cynnwys oedran y meddiannydd arfaethedig ac unrhyw berson sy'n bwriadu preswylio yn y cartref symudol gyda'r meddiannydd arfaethedig.

(5) Mewn achosion pan fo gan y safle reol cyn cychwyn neu reol safle sy'n ymwneud â chadw anifeiliaid, mae'r wybodaeth hefyd yn cynnwys manylion unrhyw anifeiliaid y mae'r meddiannydd arfaethedig neu unrhyw berson arall sy'n bwriadu preswylio yn y cartref symudol gyda'r meddiannydd arfaethedig, yn bwriadu eu cadw ar y safle (gan gynnwys, pan mai ci yw'r anifail, frîd y ci).

(6) Mewn achosion pan fo gan y safle reol cyn cychwyn neu reol safle sy'n ymwneud â pharcio cerbydau ar y safle, mae'r wybodaeth hefyd yn cynnwys manylion unrhyw gerbydau y mae'r meddiannydd arfaethedig neu unrhyw berson sy'n bwriadu preswylio yn y cartref symudol gyda'r meddiannydd arfaethedig, yn bwriadu eu parcio ar y safle.

(7) Rhaid i'r wybodaeth gael ei darparu ar y ffurf a ragnodir yn Atodlen 2, neu ar ffurf y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi.

**Cytundebau presennol: Hysbysiad o'r bwriad i roi'r cartref yn anrheg**

**5.**—(1) Yr wybodaeth a ragnodir at ddibenion paragraff 13(5) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 yw'r wybodaeth a bennir ym mharagraffau (2) i (6) o'r rheoliad hwn.

(2) Ym mhob achos, mae'r wybodaeth yn cynnwys—

(a) enw'r meddiannydd arfaethedig ;

(b) eglurhad o effaith is-baragraffau (1) i (4) o baragraff 13 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013; ac

(c) ar ba seiliau a ragnodir yn rheoliad 7 y caiff y perchennog wneud cais i'r tribiwnlys am orchymyn gwrthod.

(3) Mewn achosion pan fo gan y safle gwarchodedig reolau cyn cychwyn neu reolau safle, mae'r wybodaeth hefyd yn cynnwys datganiad yn cadarnhau—

(a) bod y meddiannydd wedi rhoi copi o'r rheolau hynny i'r meddiannydd arfaethedig; a

(b) bod y meddiannydd arfaethedig wedi darllen ac wedi deall y rheolau hynny (neu fod rhywun wedi eu hegluro iddo) a'i fod yn gallu cydymffurfio â hwy.

(4) Mewn achosion pan fo gan y safle reol cyn cychwyn neu reol safle sy'n ymwneud ag oedran meddianwyr, mae'r wybodaeth hefyd yn cynnwys oedran y meddiannydd arfaethedig ac unrhyw berson sy'n bwriadu preswylio yn y cartref symudol gyda'r meddiannydd arfaethedig.

(5) Mewn achosion pan fo gan y safle reol cyn cychwyn neu reol safle sy'n ymwneud â chadw anifeiliaid, mae'r wybodaeth hefyd yn cynnwys manylion unrhyw anifeiliaid y mae'r meddiannydd arfaethedig neu unrhyw berson arall sy'n bwriadu preswylio yn y cartref symudol gyda'r meddiannydd arfaethedig, yn bwriadu eu cadw ar y safle (gan gynnwys, pan mai ci yw'r anifail, brîd y ci).

(6) Mewn achosion pan fo gan y safle reol cyn cychwyn neu reol safle sy'n ymwneud â pharcio cerbydau ar y safle, mae'r wybodaeth hefyd yn cynnwys manylion unrhyw gerbydau y mae'r meddiannydd arfaethedig neu unrhyw berson sy'n bwriadu preswylio yn y cartref symudol gyda'r meddiannydd arfaethedig, yn bwriadu ei barcio ar y safle.

(7) Rhaid i'r wybodaeth—

(a) cael ei darparu ar y ffurf a ragnodir yn Atodlen 3 neu ar ffurf y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi; a

(b) mynd gyda'r dystiolaeth berthnasol (fel y'i diffinnir ym mharagraff 12(2) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013).

**Rhoi cartref symudol yn anrheg: tystiolaeth bod y meddiannydd arfaethedig yn aelod o deulu'r meddiannydd**

**6.** Y dystiolaeth a ragnodir at ddibenion paragraff 12(2)(a) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013, yw'r dystiolaeth a ddarperir gan un neu ragor o'r canlynol—

(a) gwybodaeth ysgrifenedig ar lw a roddir gan y meddiannydd a'r meddiannydd arfaethedig sy'n egluro perthynas y meddiannydd arfaethedig â'r meddiannydd;

(b) tystysgrif geni neu dystysgrif mabwysiadu;

(c) tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil.

### Cytundebau presennol: ar ba seiliau y caiff perchennog y safle wneud cais am orchymyn gwrthod

**7.**—(1) Y seiliau a ragnodir at ddibenion paragraff 10(7) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (gwerthu cartref symudol: cytundebau presennol) yw, pe bai'r meddiannydd arfaethedig yn dod yn feddiannydd, y byddai'r meddiannydd arfaethedig neu berson sy'n bwriadu preswylio gyda'r meddiannydd arfaethedig yn torri rheol cyn cychwyn neu reol safle—

(a) oherwydd oedran;

(b) drwy gadw anifeiliaid y caiff disgrifiad ohonynt ei bennu yn y rheol;

(c) drwy barcio cerbydau ar y safle y caiff disgrifiad ohonynt ei bennu yn y rheol; neu

(d) drwy barcio nifer o gerbydau ar y safle sy'n fwy na'r nifer a bennir yn y rheol.

(2) Y seiliau a ragnodir at ddibenion paragraff 13(7) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (rhoi cartref symudol yn anrheg: cytundebau presennol) yw—

(a) y seiliau a grybwyllir ym mharagraff (1); neu

(b) bod y meddiannydd arfaethedig wedi methu â darparu'r dystiolaeth berthnasol i'r perchennog (fel y'i diffinnir ym mharagraff 12(2) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013).

(3) Pan fo safle yn eiddo i landlord cymdeithasol cofrestredig o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996(**2**), ceir sail ragnodedig ychwanegol at ddibenion paragraffau 10(7) a 13(7) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013, pan fo gan y landlord bolisi ar waith ar gyfer dyrannu lleiniau i Sipsiwn a Theithwyr, y byddai gwerthu cartref symudol neu ei roi yn anrheg i'r meddiannydd arfaethedig yn mynd yn groes iddo.

### Y gyfradd uchaf o gomisiwn sy'n daladwy ar werthiant cartref symudol

**8.** Y gyfradd a ragnodir at ddibenion paragraffau 9(4) a 10(8) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 yw 10% o bris prynu'r cartref symudol.

### Ffurf aseiniad a hysbysiad o aseiniad

**9.**—(1) Rhaid i aseiniad cytundeb yn unol â pharagraff 9(1), 10(1), 12(1) neu 13(1) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (yn ôl y digwydd) gael ei wneud—

(a) yn ysgrifenedig; a

(b) ar y ffurf a ragnodir yn Atodlen 4 (neu ar ffurf y mae ei heffaith yn effaith yn sylweddol debyg iddi).

(2) O fewn 7 niwrnod i'r aseiniad, rhaid i'r aseinai gyflwyno hysbysiad o'r aseiniad i'r perchennog sy'n cydymffurfio â gofynion paragraffau (3) i (8) ("hysbysiad o aseiniad").

(3) Ym mhob achos, rhaid i'r hysbysiad o aseiniad bennu—

(a) enw'r aseiniwr;

(b) enw'r aseinai ac unrhyw berson arall sy'n bwriadu preswylio yn y cartref symudol gyda'r aseinai;

(c) cyfeiriad y cartref symudol;

(d) dyddiad aseinio'r cytundeb; ac

(e) cyfeiriad yr aseinwr ar gyfer anfon ymlaen.

(4) Yn achos gwerthu cartref symudol, rhaid i'r hysbysiad o aseiniad hefyd—

(**2**) 1996 p.52.

(a) pennu pris prynu'r cartref symudol a swm y comisiwn y mae'n ofynnol i'r aseinai ei dalu i'r perchennog o dan baragraff 9(4) neu 10(8) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (yn ôl y digwydd); a

(b) cynnwys eglurhad o'r gofynion a ragnodir gan reoliad 10 (talu comisiwn).

(5) Mewn achosion pan fo gan y safle reolau cyn cychwyn neu reolau safle, rhaid i'r hysbysiad o aseiniad hefyd gynnwys datganiad yn cadarnhau bod yr aseinai wedi darllen ac wedi deall y rheolau hynny (neu fod rhywun wedi eu hegluro iddo) a'i fod yn cytuno i gydymffurfio â hwy.

(6) Mewn achosion pan fo gan y safle reol cyn cychwyn neu reol safle sy'n ymwneud ag oedran meddianwyr, rhaid i'r hysbysiad o aseiniad hefyd bennu oedran yr aseinai ac unrhyw berson sy'n bwriadu preswylio yn y cartref symudol gyda'r aseinai.

(7) Rhaid i'r hysbysiad o aseiniad—

(a) cael ei ddarparu ar y ffurf a ragnodir yn Atodlen 5, neu ar ffurf y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi; a

(b) mynd gyda'r dogfennau a grybwyllir ym mharagraff (8).

(8) Dyma'r dogfennau—

(a) copi o'r offeryn sy'n rhoi effaith i'r aseiniad;

(b) yn achos gwerthiant, tystiolaeth ddogfennol o'r pris a delir gan yr aseinai am y cartref symudol;

(c) copi o unrhyw reolau cyn cychwyn neu reolau safle y derbyniodd yr aseinai hwy yn unol â rheoliad 3(1)(c) neu (d) (yn ôl y digwydd); a

(d) copi o'r cytundeb a'r datganiad ysgrifenedig y derbyniodd yr aseinai hwy yn unol â rheoliad 3(1)(a).

(9) Caniateir i'r hysbysiad o aseiniad a dogfennau eraill y mae'n ofynnol eu darparu i'r perchennog o dan y rheoliad hwn naill ai gael eu danfon at y perchennog yn bersonol neu eu hanfon drwy'r post.

**Talu comisiwn**

**10.**—(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl derbyn yr hysbysiad o aseiniad, rhaid i'r perchennog ddarparu manylion y cyfrif banc y mae'r perchennog yn dymuno i'r aseinai dalu'r comisiwn iddo, sef y comisiwn y mae'n ofynnol i'r aseinai ei dalu i'r perchennog o dan baragraff 9(4) neu 10(8) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (yn ôl y digwydd).

(2) O fewn 7 niwrnod ar ôl derbyn y manylion hynny, rhaid i'r aseinai dalu'r comisiwn i'r cyfrif banc.

**Rheolau cyn cychwyn sy'n ymwneud â gwerthiannau, anrhegion ac aseiniadau: materion a ragnodir**

**11.**—(1) Nid oes gan reol cyn cychwyn sy'n ymwneud â gwerthu cartref symudol unrhyw effaith i'r graddau ei bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o'r materion a grybwyllir ym mharagraff (2) o'r rheoliad hwn.

(2) Dyma'r materion—

(a) a ddylid atal y meddiannydd rhag gwerthu cartref symudol neu ei roi yn anrheg i unrhyw un heblaw am y perchennog;

(b) a ddylai fod yn ofynnol i'r meddiannydd hysbysu'r perchennog am fwriad y meddiannydd i werthu cartref symudol neu ei roi yn anrheg;

(c) a ddylai fod yn ofynnol i'r meddiannydd ddefnyddio gwasanaethau'r perchennog neu berson a bennir gan y perchennog at ddibenion gwerthu cartref symudol neu ei roi yn anrheg;

(d) a ddylid atal y meddiannydd rhag defnyddio gwasanaethau asiant tai at ddibenion gwerthu'r cartref symudol;

(e) a ddylid atal y meddiannydd rhag defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan gyfreithiwr at ddibenion gwerthu cartref symudol neu ei roi yn anrheg ac aseinio'r cytundeb;

(f) a ddylid atal y meddiannydd rhag defnyddio unrhyw wasanaethau a fyddai fel arall ar gael i'r meddiannydd at ddibenion gwerthu cartref symudol neu ei roi yn anrheg;

(g) a ddylid atal y meddiannydd rhag hysbysebu bod y cartref symudol ar werth drwy hysbysiad, bwrdd neu hysbyslen a osodir ar y cartref symudol neu ar y llain;

(h) a ddylai fod yn ofynnol i'r meddiannydd—

(i) trefnu bod arolwg o'r cartref symudol neu'r llain yn cael ei gynnal; neu

(ii) caniatáu i'r perchennog neu ei asiant gynnal arolwg o'r cartref symudol neu'r llain

cyn gwerthu cartref symudol neu ei roi yn anrheg;

(i) a ddylai fod yn ofynnol i'r meddiannydd werthu cartref symudol neu ei roi yn anrheg neu aseinio'r cytundeb ym mhresenoldeb y perchennog;

(j) a ddylai fod yn ofynnol i'r meddiannydd neu'r meddiannydd arfaethedig ddarparu manylion personol y meddiannydd arfaethedig i berchennog y safle neu fanylion unrhyw berson arall sy'n bwriadu byw yn y cartref symudol gyda'r meddiannydd arfaethedig;

(k) a ddylai fod yn ofynnol i'r meddiannydd arfaethedig fynd i gyfarfod â'r perchennog.

(3) Mae'r canlynol yn enghreifftiau o "manylion personol"—

(a) cyfeiriad cartref neu fanylion cyswllt eraill y person o dan sylw;

(b) unrhyw wybodaeth ariannol sy'n ymwneud â'r person o dan sylw; ac

(c) manylion am oedran, tarddiad ethnig, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol y person dan sylw.

(4) Yn is-baragraffau (c), (d), (e), (f) ac (h) o baragraff (2) mae cyfeiriadau at werthu cartref symudol yn cynnwys cyfeiriad at farchnata, hysbysebu neu gynnig cartref symudol i'w werthu.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru

2 Gorffennaf 2014

## ATODLEN 1

Rheoliad 3

Hysbysiad i feddiannydd arfaethedig

FFURFLEN GWYBODAETH I BRYNWR (hysbysiad i feddiannydd arfaethedig)
(ffurflen i'w chwblhau gan y gwerthwr a'i rhoi i'r prynwr arfaethedig)

I ………………………………………… [*mewnosoder enw'r prynwr arfaethedig*]

Gan ……………………………………… [*mewnosoder enw a chyfeiriad y gwerthwr*]

**Adran 1 - gwybodaeth ariannol**

(i) Pris arfaethedig y gwerthiant

Pris gwerthu'r cartref symudol yw £ …………………… [*mewnosoder swm*]

(ii) Swm y comisiwn sy'n daladwy i berchennog y safle

Os byddwch yn prynu'r cartref symudol, bydd yn ofynnol i chi ddidynnu'r swm o £.............. [*mewnosoder swm*] o bris y gwerthiant a thalu'r swm hwn yn uniongyrchol i gyfrif banc perchennog y safle ar ôl cwblhau'r gwerthiant ac aseinio'r cytundeb (gweler nodyn(i)).

(iii) Ffi am y llain

Swm y ffi am y llain sy'n daladwy i berchennog y safle yw £ ……………….[*mewnosoder y swm*] yr wythnos/y mis/bob chwarter/y flwyddyn [*dileer fel y bo'n briodol*].

Mae'r ffi am y llain yn daladwy ar ………………………………………………[*mewnosoder y diwrnod/dyddiad y mae'n daladwy*].

Dyddiad yr adolygiad nesaf o'r ffi am y llain yw …………………………….[*mewnosoder y dyddiad*].

Mae'r gwasanaethau canlynol wedi eu cynnwys yn y ffi am y llain —

……………………………………………………

……………………………………………………

Ôl-ddyledion y ffi am y llain a/neu daliadau sy'n daladwy o dan y cytundeb

Mae gen i ôl-ddyledion/Does gen i ddim ôl-ddyledion (*dileer fel y bo'n briodol*) o ran y ffioedd am y llain.

Swm yr ôl-ddyledion yw £ …………………………………………………..[*mewnosoder y swm sydd heb ei dalu*] ar gyfer y cyfnod rhwng …………………………..(*mewnosoder y dyddiad dechrau*) a ……………………. (*mewnosoder y dyddiad gorffen*).

Rwyf wedi ymrwymo i'r cytundeb canlynol gyda pherchennog y safle er mwyn clirio'r ôl-ddyledion ………………………………………………………………………………..

(iv) Y dreth gyngor

Band prisio'r dreth gyngor sy'n berthnasol i'r cartref symudol yw…………….[*mewnosoder band prisio'r dreth gyngor*].

(v) Benthyciadau heb eu talu sydd wedi eu sicrhau ar y cartref symudol

Myfi yw perchennog cyfreithiol y cartref symudol yr wyf yn ei werthu gyda meddiant gwag, ac rwy'n cadarnhau nad oes benthyciadau heb eu talu sydd wedi eu sicrhau ar y cartref symudol [ ]

**Adran 2 – gwybodaeth am gytundeb gwerthwr (gweler nodyn (ii))**

Cafodd y cytundeb hwn ei wneud/ei aseinio i mi [dileer fel y bo'n briodol] ar ……………………………………[*mewnosoder dyddiad*].

Nodyn Pwysig

Os cafodd y cytundeb ei wneud ar 1 Hydref 2014 neu wedi hynny neu os cafodd ei aseinio i'r gwerthwr ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, nid yw'n ofynnol i'r gwerthwr hysbysu perchennog y safle am ei fwriad i werthu'r cartref symudol ac aseinio'r cytundeb.

Os cafodd y cytundeb ei wneud rhwng y gwerthwr a pherchennog y safle cyn 1 Hydref 2014 neu os cafodd ei aseinio i'r gwerthwr cyn y dyddiad hwnnw, yna os ydych chi a'r gwerthwr yn penderfynu bwrw ymlaen â'r trafodiad, bydd yn ofynnol i'r gwerthwr yn ôl y gyfraith hysbysu perchennog y safle am ei fwriad i werthu ei gartref symudol ac aseinio'r cytundeb i chi. Bydd hefyd yn ofynnol i'r gwerthwr roi gwybodaeth benodol amdanoch chi i berchennog y safle y bydd yn ofynnol i chi gadarnhau ei dilysrwydd drwy gwblhau 'hysbysiad o'r bwriad i werthu' y bydd y gwerthwr yn ei anfon at berchennog y safle. Bydd gan berchennog y safle gyfnod o 21 o ddiwrnodau, gan ddechrau gyda'r dyddiad pan dderbyniodd yr hysbysiad o'r bwriad i werthu, pan gaiff wneud cais i dribiwnlys, ar un o'r seiliau a ragnodir yn rheoliad 7 o Reoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014, am orchymyn gwrthod er mwyn atal y gwerthiant rhag mynd rhagddo.

Ym mhob achos fodd bynnag, nid oes angen i chi gysylltu â pherchennog y safle yn uniongyrchol cyn cwblhau gwerthiant y cartref symudol. Os bydd y perchennog neu rywun ar ran y perchennog yn cysylltu â chi, nid oes angen i chi ddarparu unrhyw fanylion personol neu fanylion am y trafodiad arfaethedig ar hyn o bryd. Os byddwch yn bwrw ymlaen â'r pryniant, byddwch yn gorfod cwblhau'r aseiniad yn unol â rheoliad 9 o'r Rheoliadau ac Atodlen 4 iddynt. Bydd hefyd angen i chi hysbysu perchennog y safle am werthiant y cartref symudol ac aseiniad y cytundeb o fewn 7 niwrnod i ddyddiad yr aseiniad, drwy gyflwyno hysbysiad o aseiniad ar y ffurf a bennir yn Atodlen 5 i'r Rheoliadau.

**Adran 3 – gwybodaeth am y safle a pherchennog y safle**

(i) Enw perchennog (perchnogion) y safle:

…………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………..[*mewnosodwch enw(au)*]

(ii) Y cyfeiriad lle gellir cyflwyno hysbysiadau i berchennog/perchnogion y safle :

………………………………………………………………………………….

………………………………………………………………………………….

[*mewnosoder cyfeiriad perchennog y safle er mwyn cyflwyno hysbysiadau os yw hwn wedi ei ddarparu i chi, neu pan nad yw'r cyfeiriad hwn wedi ei ddarparu, unrhyw gyfeiriad hysbys arall ar gyfer perchennog y safle*]

(iii) Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae'r safle wedi ei leoli

……………………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………………..

[*mewnosoder enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol*]

Manylion unrhyw achosion cyfreithiol mewn perthynas ag unrhyw faterion yn ymwneud â'r cartref symudol, y cytundeb neu'r safle yr ydych yn barti iddo ac sydd wedi cael eu cyhoeddi neu eu cychwyn ond nad yw'r tribiwnlys neu'r llys wedi ei waredu neu eu tynnu'n ôl

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

Enw ……………………………………..

Llofnodwyd ……………………………………

Dyddiad ………………………………………

Dogfennau

Nodiadau pwysig

Mae'n ofynnol i'r gwerthwr ddarparu'r wybodaeth a nodir yn y ffurflen hon a'r dogfennau a restrir isod i'r prynwr arfaethedig o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn cwblhau gwerthiant y cartref symudol ac aseinio'r cytundeb.

Os yw'r prynwr arfaethedig yn cytuno y gall yr wybodaeth a'r dogfennau gael eu darparu llai na 28 o ddiwrnodau cyn dyddiad cwblhau'r gwerthiant ac aseinio'r cytundeb, rhaid i'r prynwr arfaethedig nodi hyn yn ysgrifenedig, gan roi gwybod i'r gwerthwr beth yw ei ddyddiad dewisedig a dylid darparu'r wybodaeth a'r dogfennau erbyn hynny.

Amgaeaf y dogfennau canlynol er gwybodaeth (*ticiwch bob dogfen a ddarperir*)

(i) Copi o fy nghytundeb (gan gynnwys telerau ymhlyg) a datganiad ysgrifenedig [ ]

(ii) Copi o unrhyw reolau cyn cychwyn sydd mewn grym [ ]

(iii) Copi o unrhyw reolau safle sydd mewn grym [ ]

(iv) Tystiolaeth ddogfennol o daliadau sy'n daladwy i **berchennog y safle** ar gyfer

— Nwy [ ]

— Trydan [ ]

— Dŵr [ ]

— Carthffosiaeth [ ]

— defnyddio garej, lle parcio neu dŷ allan [ ]

— unrhyw wasanaethau eraill [ ]

(*Os yw'n berthnasol dylid cynnwys manylion ynghylch pryd mae'r taliadau hyn yn daladwy a phryd y mae angen eu hadolygu nesaf*)

(v) Tystiolaeth ddogfennol am daliadau sy'n daladwy **i drydydd parti** ar gyfer

— Nwy [ ]

— Trydan [ ]

— Dŵr [ ]

— Carthffosiaeth [ ]

— defnyddio garej, lle parcio neu dŷ allan [ ]

— unrhyw wasanaethau eraill [ ]

(*Os yw'n berthnasol dylid cynnwys manylion ynghylch pryd y mae'r taliadau yn daladwy a phryd y dylid eu hadolygu nesaf*)

(vi) Copi o unrhyw warant ddilys ar gyfer y cartref symudol [ ]

(vii) Manylion unrhyw arolwg o'r cartref symudol, safle neu lain a gynhaliwyd ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis cyn dyddiad yr hysbysiad hwn [ ]

Pan nad ydych yn gallu darparu dogfen a restrir uchod, rhowch eglurhad am hyn isod:

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

| |
|---|
| Nodiadau<br>(i) O dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 y swm uchaf o gomisiwn y gall perchennog y safle ei gwneud yn ofynnol i chi ei dalu yw 10% o'r pris prynu. O dan reoliad 10 o Reoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014 mae'n ofynnol i chi dalu'r comisiwn i berchennog y safle o fewn 7 niwrnod ar ôl derbyn manylion banc perchennog y safle, ac ar ôl hysbysu perchennog y safle am gwblhau'r gwerthiant ac aseinio'r cytundeb.<br>(ii) Ystyr cytundeb yw cytundeb o dan adran 48(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ac mae'n cynnwys datganiad ysgrifenedig a roddir i'r gwerthwr o dan adran 49(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 pan fo'r gwerthwr yn meddu ar un. |
| Rhybudd i'r gwerthwr:<br>Os byddwch yn methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i ddarparu'r wybodaeth hon gallech fod yn agored i hawliad sifil am dorri eich dyletswydd statudol, yn unol â pharagraff 11(6) o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. |

## ATODLEN 2

Rheoliad 4

Hysbysiad o'r bwriad i werthu

FFURFLEN HYSBYSIAD O'R BWRIAD I WERTHU
(ffurflen i'w chwblhau gan y gwerthwr a'r prynwr a'i rhoi i berchennog y safle—
**Ar gyfer cytundebau presennol yn unig** (gweler nodyn (i))

I …………………………………………………….. *(mewnosoder enw perchennog y safle)*
Gan ………………………………………………….*(mewnosoder enw'r gwerthwr/gwerthwyr)*

**Adran 1 - Partïon**

Myfi/Ni yw perchennog/perchnogion y cartref symudol yn
………………………………………………………………………
………………………………………………………………………
……………………………………………….*(mewnosoder enw a chyfeiriad y cartref symudol)*
yr ydw i/yr ydym ni yn bwriadu ei werthu i ………………………………………
………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………….*(mewnosoder enw'r prynwr/prynwyr)*.

**Adran 2 (i'w chwblhau ddim ond os oes gan y safle reolau ynghylch cyfyngiadau oedran, anifeiliaid anwes neu gerbydau) [Gweler nodyn (ii)]**

(i) Rwyf wedi rhoi copi o'r rheolau i'r meddiannydd [prynwr] arfaethedig.

Mae'r meddiannydd [prynwr] arfaethedig yn cadarnhau ei fod wedi darllen ac wedi deall y rheolau (neu fod rhywun wedi eu hegluro iddo) ac yn gallu cydymffurfio â hwy.

(ii) Safle gyda rheol(au) yn ymwneud â chadw anifeiliaid:

Nid yw'r meddiannydd arfaethedig yn bwriadu cadw anifeiliaid ar y safle/Mae'r meddiannydd arfaethedig yn bwriadu cadw'r anifeiliaid canlynol ar y safle *(dileer fel y bo'n briodol).*

Os ydych yn bwriadu cadw anifeiliaid, rhowch fanylion y math o anifail/anifeiliaid a'r nifer a, phan mai ci yw'r anifail, y brîd:

………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………

(iii) Safleoedd gyda rheol(au) yn ymwneud â pharcio cerbydau ar y safle:

Mae'r/Nid yw'r meddiannydd arfaethedig yn bwriadu parcio cerbydau ar y safle *(dileer fel y bo'n briodol).*

……………………………………………………………………………………..
……………………………………………………………………………………..
……………………………………………………………………………………..

*Rhowch ddisgrifiad o'r cerbydau dan sylw. Peidiwch â rhoi'r rhifau cofrestru*

(iv) Safleoedd â rheol(au) yn ymwneud ag oedran meddianwyr:

Mae'r meddiannydd arfaethedig yn cadarnhau y byddai'r personau canlynol yn meddiannu'r cartref symudol fel eu hunig breswylfa neu eu prif breswylfa:

| Enw | Oedran |
| --- | --- |
| ………………… | ……………………… |
| ………………… | ……………………… |
| ………………… | ……………………… |

**Adran 3 – Llofnod** (gweler nodyn (iii))

Llofnod Dyddiedig:

(y gwerthwr)

Llofnod Dyddiedig:

(y prynwr)

<u>At sylw perchennog y safle</u>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau rhowch wybod i'r gwerthwr cyn gynted â phosibl. Os byddwch yn penderfynu gwneud cais i dribiwnlys am orchymyn gwrthod rhaid i chi wneud y cais a chyflwyno hysbysiad o'r cais i'r gwerthwr, o fewn 21 o ddiwrnodau ar ôl derbyn yr hysbysiad hwn.

Os nad yw'r gwerthwr yn derbyn hysbysiad o'ch cais am orchymyn gwrthod o fewn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau, caiff y gwerthwr fwrw ymlaen â'r gwerthiant heb ymgynghori â chi ymhellach ac ni fydd y tribiwnlys yn gallu ystyried eich cais.

Nodiadau

(i) Cytundeb presennol yw cytundeb a wnaed cyn i adran 48(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 gychwyn ac a wnaed ar 30 Medi 2014 neu cyn hynny ac nad yw wedi ei aseinio ers y dyddiad hwnnw. Dim ond ar gyfer cartrefi symudol sy'n cael eu gwerthu o dan gytundebau presennol y mae'n rhaid cwblhau'r ffurflen hon. Pan gaiff cytundeb ei wneud ar 1 Hydref 2014 neu ar ôl hynny neu os cafodd ei wneud cyn y dyddiad hwnnw ond ei fod wedi ei aseinio ar un achlysur neu ragor er 30 Medi 2014, gall y cartref symudol gael ei werthu a'r cytundeb ei aseinio heb fod angen hysbysu perchennog y safle (gweler paragraff 9(1) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013).

(ii) Yn unol â rheoliad 7 o Reoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014, yr unig seiliau y gellir gwneud cais am orchymyn gwrthod arnynt yw, pe bai'r meddiannydd arfaethedig yn dod yn feddiannydd, y byddai'r meddiannydd arfaethedig neu'r person sy'n bwriadu preswylio gyda'r meddiannydd arfaethedig yn torri rheol cyn cychwyn neu reol safle:

(a) oherwydd oedran,

(b) drwy gadw anifeiliaid y caiff disgrifiad ohonynt ei bennu yn y rheol,

(c) drwy barcio cerbydau ar y safle y caiff disgrifiad ohonynt yn y rheol,

(d) drwy barcio nifer o gerbydau ar y safle sy'n fwy na'r nifer a bennir yn y rheol.

(iii) Cyn llofnodi'r ffurflen rhaid i chi sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn wir, yn gywir ac yn gyfredol (hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred) .

## ATODLEN 3

Rheoliad 5

Hysbysiad o'r bwriad i roi'r cartref yn anrheg

FFURFLEN HYSBYSIAD O'R BWRIAD I ROI'R CARTREF YN ANRHEG
(ffurflen i'w chwblhau gan y meddiannydd a'i rhoi i berchennog y safle—
**Ar gyfer cytundebau presennol yn unig** (gweler nodyn (i))

I ……………………………………………*(mewnosoder enw perchennog y safle)*

Gan …………………………………………*(mewnosoder enw meddiannydd)*

**Adran 1**

Myfi/Ni yw perchennog/perchnogion y cartref symudol yn

…………………………………………………………

…………………………………………………………

…………………………………………………………

…………………………………………………………

*(mewnosoder enw a chyfeiriad y cartref symudol)*

Rydw i/rydym ni yn bwriadu ei roi yn anrheg i

…………………………………………………………

…………………………………………………………

…………………………………………………………

*(mewnosoder enw'r meddiannydd arfaethedig)*

sef fy ……………………………………………….*(mewnosoder eich perthynas â'r meddiannydd arfaethedig) (gweler nodyn (ii)).*

Amgaeaf y dystiolaeth berthnasol ganlynol *(ticiwch un neu ragor fel y bo'n berthnasol)* (gweler nodyn (iii))

— datganiad ysgrifenedig ar lw, yn egluro'r berthynas deuluol rhwng y meddiannydd a'r meddiannydd arfaethedig [ ]

— tystysgrif geni neu dystysgrif mabwysiadu [ ]

— tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil [ ]

— tystiolaeth berthnasol arall (disgrifiwch) [ ]

………………………………………………………………………

………………………………………………………………………

**Adran 2 (i'w chwblhau dim ond os oes gan y safle reolau o ran cyfyngiadau oedran, anifeiliaid anwes neu gerbydau)** [Gweler nodyn (iv)]

(i) Rwyf wedi darparu copi o'r rheolau i'r meddiannydd arfaethedig.

(ii) Mae'r meddiannydd arfaethedig yn cadarnhau ei fod wedi darllen ac wedi deall y rheolau (neu fod rhywun wedi eu hegluro iddo) ac yn gallu cydymffurfio â hwy.

(iii) Safleoedd â rheol(au) yn ymwneud â chadw anifeiliaid:

Nid yw'r meddiannydd arfaethedig yn bwriadu cadw anifeiliaid ar y safle/Mae'r meddiannydd arfaethedig yn bwriadu cadw'r anifeiliaid canlynol ar y safle *(dileer fel y bo'n briodol).*

Os yw'r meddiannydd arfaethedig yn bwriadu cadw anifeiliaid, rhowch fanylion y math o anifail/anifeiliaid a'r nifer(oedd) a, phan mai ci yw'r anifail, y brîd:

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

(iv) Safleoedd â rheol(au) yn ymwneud â pharcio cerbydau ar y safle:

Mae'r/Nid yw'r meddiannydd arfaethedig yn bwriadu parcio cerbydau ar y safle *(dileer fel y bo'n briodol).*

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

Rhowch ddisgrifiad o'r cerbydau dan sylw. Peidiwch â rhoi'r rhifau cofrestru

(v) Safleoedd â rheol(au) yn ymwneud ag oedran meddianwyr:

Mae'r meddiannydd arfaethedig yn bwriadu y byddai'r personau canlynol yn meddiannu'r cartref symudol fel eu hunig breswylfa neu eu prif breswylfa:

| Enw | Oedran |
| --- | --- |
| ………………………… | ………….. |
| ………………………… | …………. |
| ………………………… | …………. |

**Adran 3 – Llofnod** (gweler nodyn (v))

| | |
| --- | --- |
| Llofnodwyd:<br>(y meddiannydd) | Dyddiedig: |
| Llofnodwyd:<br>(y meddiannydd arfaethedig) | Dyddiedig: |

**At sylw perchennog y safle**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau rhowch wybod i'r meddiannydd cyn gynted â phosibl. Os byddwch yn penderfynu gwneud cais i dribiwnlys am orchymyn gwrthod rhaid ichi wneud y cais a chyflwyno hysbysiad o'r cais i'r meddiannydd, o fewn 21 o ddiwrnodau ar ôl derbyn yr hysbysiad hwn.

Os nad yw'r meddiannydd yn cael hysbysiad o'ch cais am orchymyn gwrthod o fewn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau, caiff y meddiannydd fwrw ymlaen â'r gwerthiant heb ymgynghori â chi ymhellach ac ni fydd y tribiwnlys yn gallu ystyried eich cais.

**Nodiadau**

(i) Cytundeb presennol yw cytundeb a wnaed cyn i adran 48(1) o Ddeddf Cartref Symudol (Cymru) 2013 gychwyn ac a wnaed ar 30 Medi 2014 neu cyn hynny ac nad yw wedi ei aseinio ers y dyddiad hwnnw. Dim ond ar gyfer cartrefi symudol sy'n cael eu rhoi yn anrheg o dan gytundebau presennol y mae'n rhaid cwblhau'r ffurflen hon. Pan gafodd cytundeb ei wneud ar 1 Hydref 2014 neu wedi hynny neu os cafodd ei wneud cyn y dyddiad hwnnw ond ei fod wedi ei aseinio ar un achlysur neu ragor er 30 Medi 2014, gall y cartref symudol gael ei werthu a'r cytundeb ei aseinio heb fod angen hysbysu perchennog y safle (gweler paragraff 12(1) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013).

(ii) Yn unol â'r diffiniad yn adran 55 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, ystyrir bod y canlynol yn aelod o deulu person—

— priod neu bartner sifil person neu unrhyw berson sy'n byw gyda'r person fel partner mewn perthynas deuluol barhaus,

— rhieni, teidiau a neiniau, plant ac wyrion ac wyresau y person (gan gynnwys unrhyw berson sy'n y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus) ac unrhyw berson arall sy'n cael ei drin gan y person fel plentyn teulu'r person, a

— brodyr, chwiorydd, ewythrod, modrybedd, neiaint a nithoedd y person (gan gynnwys unrhyw berson sydd yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus).

(iii) Mae angen i chi ddarparu tystiolaeth berthnasol i ddangos eich bod yn rhoi cartref symudol yn anrheg i aelod o'ch teulu, fel y nodir ym mharagraffau 12 a 13 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Mae Rheoliad 6 yn rhestru'r dystiolaeth berthnasol a ragnodir gan Weinidogion Cymru ond bydd unrhyw dystiolaeth foddhaol arall sy'n dangos bod y person yr ydych yn bwriadu rhoi'r cartref symudol yn anrheg iddo yn aelod o'ch teulu, hefyd yn bodloni'r diffiniad o dystiolaeth berthnasol.

(iv) O dan reoliad 7 o Reoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014, yr unig seiliau y gall cais am orchymyn gwrthod gael ei wneud arnynt yw, pe bai'r meddiannydd arfaethedig yn dod yn feddiannydd, y byddai'r meddiannydd arfaethedig neu'r person sy'n bwriadu preswylio gyda'r meddiannydd arfaethedig yn torri rheol cyn cychwyn neu reol safle:

(a) oherwydd oedran,

(b) drwy gadw anifeiliaid y caiff disgrifiad ohonynt ei bennu yn y rheol,

(c) drwy barcio cerbydau ar y safle y caiff disgrifiad ohonynt yn y rheol,

(d) drwy barcio nifer o gerbydau ar y safle sy'n fwy na'r nifer o bennir yn y rheol.

(v) Cyn llofnodi'r ffurflen rhaid i chi sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn wir, yn gywir ac yn gyfredol (hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred).

## ATODLEN 4

Rheoliad 9(1)

### Ffurflen aseiniad

Ffurflen Aseiniad
(i'w chwblhau gan yr aseiniwr/aseinwyr a'r aseinai/aseineion)

Yn y ffurflen hon, ystyr "y cytundeb" yw'r cytundeb o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 rhwng y meddiannydd a pherchennog y safle sy'n rhoi'r hawl i'r meddiannydd osod cartref symudol ar lain.

**Adran 1: Y Partïon** [gweler nodyn (i)]

Rhwng yr aseiniwr:

……………………………………………………………………………………..

………………………………………………*(mewnosoder enw a chyfeiriad y person sy'n aseinio'r cytundeb)*

A'r aseinai:

………………………………………………………………………………………

……………………………………………..*(mewnosoder enw a chyfeiriad y person y caiff y cytundeb ei aseinio iddo)*

Mae'r aseiniwr yn aseinio'r cytundeb i'r aseinai ynghyd â'r holl hawliau a chyfrifoldebau sydd ynghlwm wrtho.

**Adran 2: Gwerthiannau (ar gyfer cwblhau gwerthiannau cartrefi symudol yn unig, nid ar gyfer rhoi cartrefi symudol yn anrheg)**

Mae'r aseinai wedi talu pris prynu o

£………………………………………… i'r aseiniwr *(mewnosoder pris y gwerthiant)*

ar gyfer (a) y cartref symudol sydd wedi ei leoli yn
……………………………………………

……………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………..

a (b) ar gyfer aseinio'r cytundeb.

Talu Comisiwn

O'r pris prynu o £…………………… mae'r aseinai yn cytuno i dalu swm o £……………………………………… i berchennog y safle mewn perthynas â'r comisiwn sy'n ddyledus i berchennog y safle o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 [gweler nodyn (ii)].

**Adran 3: Ffi am y Llain**

Mae'r aseinai yn cytuno i dalu'r ffi am y llain a chadw at delerau'r cytundeb.

Y ffi bresennol am y llain yw £……………………………………… yr wythnos/y mis/bob chwarter/y flwyddyn *(dileer fel y bo'n berthnasol)*

Y dyddiad nesaf ar gyfer adolygu'r ffi am y llain yw
……………………………………………*(mewnosoder dyddiad adolygu blynyddol)*

Mae'r aseinai yn addo indemnio'r aseiniwr yn erbyn unrhyw hawliad neu achos cyfreithiol sy'n codi oherwydd bod yr aseinai wedi methu â gwneud y taliadau sy'n ddyledus ganddo neu wedi methu â chadw at delerau'r cytundeb.

| Aseiniwr | Aseinai |
|---|---|
| Enw …………………………….. | Enw …………………………….. |
| Llofnodwyd………………………….. | Llofnodwyd ………………………… |
| Dyddiad ……………………………. | Dyddiad ……………………………. |

**Nodiadau**

(i) Yr aseiniwr yw'r person sy'n gwerthu neu'n rhoi'r cartref symudol yn anrheg ac yn aseinio'r cytundeb a'r aseinai yw'r person y caiff y cartref symudol ei werthu iddo neu ei roi iddo yn anrheg ac y caiff y cytundeb ei aseinio iddo.

(ii) O dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 y swm uchaf o gomisiwn y gall perchennog y safle ei gwneud yn ofynnol i chi ei dalu yw 10% o'r pris prynu. O dan reoliad 10 o Reoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014 mae'n ofynnol i chi dalu'r comisiwn i berchennog y safle o fewn 7 niwrnod ar ôl y dyddiad pan mae perchennog y safle yn darparu manylion y cyfrif banc i chi, y mae'n ofynnol i'r comisiwn gael ei dalu iddo.

ATODLEN 5 Rheoliad 9(7)

Hysbysiad o aseiniad

**HYSBYSIAD O ASEINIAD**
(i'w gwblhau gan yr aseinai/aseineion a'i anfon at berchennog/perchnogion y safle o fewn 7 niwrnod ar ôl i'r cytundeb gael ei aseinio)

**Adran 1 – Manylion y partïon**

I: ……………………………………………………………………..

……………………………………………......*(mewnosoder enw perchennog/perchnogion y safle)*

Gan: …………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………

……………………………………*(mewnosoder enw(au) y meddiannydd/meddianwyr newydd)*

Myfi/Ni yw meddianwyr newydd y cartref symudol a leolir yn ……………………..

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

Cafodd cytundeb y llain ei aseinio i mi/ni ar ......................*(mewnosoder dyddiad yr aseiniad)* gan...................................................................................*(mewnosoder enw y meddiannydd/meddianwyr blaenorol)* yn unol â thelerau a nodir yn y datganiad ysgrifenedig/cytundeb ac yn cynnwys y rheini sydd ymhlyg yn y cytundeb drwy Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

Cyfeiriad y meddiannydd blaenorol yw:

………………………………………………………………………………………….

………………………………………………………………………………………….

………………………………………………………………………………………….

………………………………………………………………………………………….

Nodyn: Pan fo gwrthdaro rhwng term datganedig yn y cytundeb a therm ymhlyg, mae'r term ymhlyg yn drech na'r term datganedig a'r term ymhlyg sy'n rheoli'r cytundeb.

**Adran 2 - pris prynu a thalu comisiwn (i'w chwblhau ar gyfer gwerthiannau'n unig, nid ar gyfer rhoi yn anrheg)**

**Pris Prynu**

Prynais i/Prynom ni y cartref symudol am £………………………*(mewnosoder cyfanswm y pris prynu)*

y mae'r swm o £…………………………….*(mewnosoder swm)* yn gomisiwn sy'n ddyledus i berchennog y safle o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

**Talu Comisiwn**

Mae'n ofynnol i berchennog y safle ddarparu manylion y cyfrif banc i mi y dylai'r comisiwn gael ei dalu iddo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl derbyn yr hysbysiad hwn.

Nodyn: Mae gan y meddiannydd newydd 7 niwrnod ar ôl y dyddiad pan mae'n derbyn manylion banc perchennog y safle i dalu'r comisiwn i berchennog y safle.

**Adran 3 – personau sy'n preswylio yn y cartref symudol**

Rwy'n/Rydym ni yn cadarnhau y bydd y personau canlynol yn meddiannu'r cartref symudol fel eu hunig breswylfa neu eu prif breswylfa

| Enw | Oedran |
| --- | --- |
| ……………………………. | ……………………… |
| ……………………………. | ……………………… |
| ……………………………… | ……………………… |
| ……………………………… | ……………………… |

(DS: Dim ond os oes gan y parc reolau safle mewn perthynas ag oedran y dylid darparu oedran y personau sy'n preswylio yn y cartref symudol)

**Adran 4 (i'w chwblhau ddim ond os oes gan y parc reolau safle o ran cyfyngiadau oedran, anifeiliaid anwes neu gerbydau)**

Rydw i/Rydym ni wedi darllen ac wedi deall rheolau'r safle (neu mae rhywun wedi eu hegluro i mi/ni) ac yn cytuno i gydymffurfio â hwy.

**Adran 5 – Dogfennau**

Amgaeaf y dogfennau canlynol a ddarparwyd i mi gan y meddiannydd blaenorol er gwybodaeth (ticiwch bob dogfen a ddarparwyd);

Copi o offeryn yr aseiniad [ ]

Copi o unrhyw reolau cyn cychwyn/rheolau safle [ ]

Copi o'r cytundeb, telerau ymhlyg a datganiad ysgrifenedig [ ]

Tystiolaeth ddogfennol am y pris a dalwyd am y cartref symudol [ ]

**Adran 6 – Llofnod**

Llofnodwyd: Dyddiedig:

Nodyn: Cyn llofnodi'r ffurflen rhaid i chi sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn wir, yn gywir ac yn gyfredol (hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred).

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth fanwl ynghylch gwerthu a rhoi cartrefi symudol yn anrheg ac aseinio cytundebau o dan ddarpariaethau yn Rhan 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("Deddf 2013").

Mae Rheoliad 3 yn rhagnodi'r wybodaeth a'r dogfennau y mae'n rhaid i feddiannwr cartref symudol eu darparu i brynwr arfaethedig (y cyfeirir ato fel "y meddiannydd arfaethedig") cyn y gellir cwblhau gwerthiant. Mae Atodlen 1 yn rhagnodi ar ba ffurf y mae'n rhaid i'r wybodaeth honno gael ei darparu.

Mae Rheoliadau 4 (mewn perthynas â gwerthiannau) a 5 (mewn perthynas â rhoi yn anrheg) yn rhagnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i feddiannwr ei darparu i berchennog y safle mewn achosion pan nad yw'r cytundeb y mae'r meddiannydd yn bwriadu ei aseinio yn gytundeb newydd (diffinnir "cytundeb newydd" ym mharagraff 9(2) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013). Mae Atodlenni 2 a 3 yn rhagnodi'r ffurfiau i'w defnyddio wrth ddarparu'r wybodaeth honno i berchennog y safle.

Pan fo meddiannydd cartref symudol yn bwriadu rhoi'r cartref symudol yn anrheg ac aseinio'r cytundeb i aelod o'i deulu (fel y'i diffinnir yn adran 55(3) o Ddeddf 2013), rhaid iddo roi'r 'tystiolaeth berthnasol' (fel y'i diffinnir ym mharagraff 12(2) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013) i berchennog y safle. Yn unol â'r pŵer ym mharagraff 12(2)(a), mae rheoliad 6 yn rhagnodi mathau penodol o dystiolaeth a fydd yn cyfrif yn 'tystiolaeth berthnasol'. Yn unol â pharagraff 12(2)(b) mae'r 'tystiolaeth berthnasol' hefyd yn golygu unrhyw dystiolaeth foddhaol arall fod y person o dan sylw yn aelod o deulu'r meddiannydd.

Mae Rheoliad 7 yn rhagnodi ar ba seiliau y caiff perchennog y safle wneud cais i'r tribiwnlys am orchymyn yn atal y meddiannydd rhag gwerthu cartref symudol neu ei roi yn anrheg (yn ôl y digwydd), ac aseinio'r cytundeb, i'r meddiannydd arfaethedig ("gorchymyn gwrthod"). Dim ond mewn achosion pan nad yw'r cytundeb yn gytundeb newydd y mae hawl i wneud cais am orchymyn gwrthod.

Mae Rheoliad 8 yn rhagnodi uchafswm y comisiwn sy'n daladwy i berchennog y safle gan y meddiannydd newydd ar werthiant cartref symudol.

Mae Rheoliad 9 (ac Atodlenni 4 a 5) yn cynnwys y gofynion gweithdrefnol y mae'r partïon i gydymffurfio â hwy mewn cysylltiad ag aseinio'r cytundeb, ac mae rheoliad 10 yn pennu'r gofynion gweithdrefnol i gydymffurfio â hwy mewn cysylltiad â thalu comisiwn.

Mae Rheoliad 11 yn darparu pan fo rheol a wnaed gan y perchennog cyn 1 Hydref 2014 yn ymwneud â gwerthu cartref symudol, na fydd yn cael unrhyw effaith i'r graddau ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion a bennir yn y rheoliad hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Asesiad Effaith a luniwyd ar gyfer Bil Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn berthnasol a gellir cael copi gan yr Adran Dai, Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ